CYNGOR CYMUNED MAWDDWY

**Cofnodion o gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd Nos Fercher yr 28ain o Awst 2024 am 8.00yh yn Neuadd Dinas Mawddwy.**

Presennol; Cyng.John P Jones, Sion Alun Roberts, Berwyn Harding, Wyn Lewis, Idris Jones, Arfon Hughes, John P Roberts, Catrin Johnson, Lynne Mccrickett a Huw T Jones (Clerc)

1. Estynwyd groeso cynnes i bawb gan y Cadeirydd Cyng John P Jones. Roedd ymddiheuriadau gan y Cyng Rhys Davies a Geraint Morgans. Danfonwyd ein cofion ar Geraint, ac roedd balchder ei fod yn gwella.
   Gwahoddwyd ddatganiadau o ddidordeb am faterion ar yr agenda. Nid oedd unrhyw ddatganiadau.

2. Nodwyd nad oedd unrhyw gais i gael cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.
3. **Cadarnhawyd gofnodion y cyfarfod a** gynhaliwyd ar y 10fed o Orffennaf ar gynnig Cyng Idris Jones a'i eilio gan Cyng Wyn Lewis.
4. **Materion yn codi**

a) **Materion Priffyrdd, Cefnffyrdd** a llwybrau – adroddwyd yn llawn am yr ymatebion i faterion ers y tro diwethaf, gan gynnwys y llwybrau y mae Cyngor Gwynedd yn cymryd gofal ohonynt, sef rhifau 12,14, 15,20,28,32, a 60. Nodwyd fod angen atgoffa yr Asiantaeth Cefnffyrdd am y cais i gau y gulfan ar waelod rhiw Pontarwysgen.

b) **Gwerthiant Eglwys Llanymawddwy –** adroddwyd nad oedd unrhyw ddiweddaraid i law. Nodwyd fod cynnig caredig i law gan Sam Robinson, ynghyd a phrosiect Seidr Tydecho, i gynorthwyo codi arian ar gyfer hyn.

c) **Cwyn am 2 garafan static** – Min y Goedwig, Aberangell, - darllenwyd yr e-bost diweddaraf, a bod hysbysiad tor-rheolaeth cynllunio wedi ei ddanfon I feddiannwyr y carafannau.

d) **Pwyllgor yr Hen Fynwent –** nid oedd diweddariad i'w adrodd.

e) **Safle chwarae i blant hyd at 15 oed yn y Plas yn Dinas – roedd y Clerc wedi danfon at** Bryn Hughes o Gyngor Gwynedd fod gan y Cyngor Cymuned diddordeb I brydleu'r tir. Cadarnhaodd Cyng Wyn Lewis ei fod wedi gwneud ychydig ymchwil, ac wedi siarad a Chwmni fyddai yn rhoi cymorth a chyngor ar sut I ariannu a rhoi pris, ond fod angen sefydlu grwp yn lleol I ymdrin a hyn. Dywedwyd y gallai Cwmni Nod Glas helpu, a dywedodd Cyng Catrin Johnson hefyd y byddai yn fodlon cynrothwyo I sefydlu grwp arwahan.Byddai trafodaeth pellach gyda Cyng Wyn Lewis.

f) **Commonwealth War Graves Commission** – darllenwyd y gohebiaeth ddiweddaraf a oedd yn cydnabod 3 o feddi. Diolchwyd I'r Cyng Arfon Hughes am ddanfon lluniau, gan gynnwys y bedd yn yr hen fynwent, ac roedd y Clerc wedi tynnu lluniau i ddangos lle roedd angen yr arwyddion.

g) **Diffibrilator o Lanymawddwy** – nodwyd fod rhaid ymchwilio ymhellach cyn y cyfarfod nesaf. Addawodd Cyng John P Roberts geisio edrych i mewn i hyn. Nodwyd hefyd nad oes yna ymatebwyr cyntaf rwan yn yr ardal, ac felly roedd cwestiwn yn codi o ran pwy sy'n gyfrifol am y ddau diffibrilator, sef yn Dinas ac Aberangell.

## 5 . Materion Cynllunio

Adroddwyd fod un cais wedi ei ddosbarthu ers y tro diwethaf, sef;

**Cais NP5/74/516**

Trosi garej ddomestig yn anecs a gosodiad gwyliau tymor byr - Ger-y-Llan, Llanymawddwy.

(*roedd hwn wedi ei ddosbarthu eisoes i'r Cynghorwyr yn gwahodd ateb erbyn diwedd Gorffennaf, ac adroddwyd am ddwy farn ar y mater. Cadarnhwyd fod mwyafrif y Cynghorwyr wedi mynegi 'dim gwrthwynebiad' a dyma a ddanfonwyd i'r Parc Cenedlaethol)*

Yn y cyswllt hyn, gofynnodd y Clerc a ellir ceisio lleihau y gohebiaeth e-bost gyda Cynghorwyr rhwng cyfarfodydd, yn arbennig ceisiadau i rannu gwybodaeth/safbwyntiau gan Gynghorwyr gan ddefnyddio y Clerc. Yn dilyn ymholiad gan y Cyng Arfon Hughes nad oedd modd iddo gysylltu gan nad oedd y Clerc yn dangos e-bost pawb, dywedodd y Clerc nad oedd yn iawn o dan reolau GDPR iddo rannu cyfeiriadau e-bost pawb allan, (ac mai dyma pam y defnyddid 'bcc') ac mai mater ydoedd i Gynghorwyr os oeddynt eisiau cysylltu gyda'i gilydd. Yn dilyn hyn, gofynnodd Arfon am gyfeiriadau pawb oedd yn bresennol.

Gyda cheisiadau cynllunio felly, cynigiodd Cyng Arfon Hughes y dylid cael cyfarfod arbennig o'r Cyngor os oedd cais cynllunio yn dod i law rhwng cyfarfodydd, a bod mwy na 21 diwrnod cyn y cyfarfod nesaf. Ni chafwyd eilydd i hyn, ac ar gynnig Cyng Catrin Johnson a'i eilio gan Cyng Berwyn Harding a chefnogaeth gweddill y Cynghorwyr, penderfynwyd parhau gyda'r un drefn. Pwysleisiwyd fod rhaid i bawb ymateb gyda cheisiadau cynllunio.

Yna trafodwyd wardiau y Cyngor, a dywedodd Cyng John P Roberts ei fod yn teimlo mai oherwydd mai etholwyr Llanymawddwy oedd wedi ei ethol, felly dylai fod mwy o lais i'w safbwynt o fewn yr ardal honno. Yn dilyn cynnig gan Cyng Catrin Johnson a'i eilio gan Cyng Lynn Mccrickett gyda chefnogaeth y gweddill, penderfynwyd cadw i'r un drefn sef fod pawb o'r 11 Cynghorydd yn gyfartal o fewn Cyngor Mawddwy gyda cheisiadau, lle bynnag y maent.

…………………………………………………………………………………

Roedd un cais i law, ond a oedd eisoes wedi ei ddosbarthu I'r Cynghorwyr;

**Cais NP5/74/342A - Dymchwel y tŷ presennol ac adeiladu tŷ newydd gyda garej integrol Tŷ'r Felin, Dinas Mawddwy, SY20 9LR.**

Yn dilyn trafodaeth, cytunwyd yn unfrydol nad oedd unrhyw wrthwynebiad.

Roedd cyfiawnhad clir fod angen ty o'r newydd ar y safle, a nodwyd fod y gwasanaethau cyhoeddus yno yn barod ar gyfer y ty presennol, a bod hyn ar gyfer person lleol sydd yn byw ynddo.

(cafwyd datganiad diddordeb gan y Cyng John P Roberts pan drafodwyd hyn)

## 6. Materion Cyllid.

a) **Nodwyd balansau y cyfrifon**, (28.08.24), sef Cyfri Cyfredol £6920.08, Cyfri Claddedigaeth £695.29 a Cyfri Cadw £782.63. Cadarnhwyd fod ail- ran y praesept ( sef £6350) yn cael ei ddanfon o fewn y dyddiau nesaf.

**b) Anfonebau I'w talu;**

Ar gynnig Cyng Arfon Hughes a'I eilio gan Cyng Lynn Mccrickett, cytunwyd i dalu y canlynol;

Cyngor Gwynedd – cyfraniad toiledau cyhoeddus Dinas Mawddwy - £2000.

Gwasanaeth archwilio mewnol Cyngor Gwynedd - £300

c) **Cyfrifon 2023- 24**, nododd y Clerc ei fod yn ymateb i rai materion ynglyn ag Archwiliad Llawn eleni.

**7. Gohebiaeth.**

**a)** Roedd e-bost gan Cyngor Cymuned Glantwymyn am gyfarfod yn Neuadd Glantwymyn ar Nos Fercher 22ain Awst ynglyn cynlluniau iechyd Bro Ddyfi wedi ei gylchredeg I bawb, ac roedd nifer wedi mynychu y cyfarfod. Adroddwyd am gyfarfod da, ac anogwyd pawb I gymryd rhan yn yr ymgynghoriad gan LLAIS.

b) Nodwyd e - bost gan Heledd Parri o Grwp Cynefin ynglyn ag anghenion tai, a chynnig i ddod I'r Cyngor i drafod hyn. Ar gynnig Cyng John P Robertrs a'I eilio gan Cyng Arfon Hughes, cytunwyd I'w gwahodd atom ir cyfafod nesaf ar y 9fed Hydref.

c) Cyfeiriwyd at ddyddiadau hyfforddiant Un Llais Cymru a oedd wedi eu cylchredeg I'r Cynghorwyr

d) Nodwyd ac eglurwyd ymgyngoriad Cyngor Gwynedd ar newid y sustem bleidleisio mewnol y Cyngor.

**8. Unrhyw Fater arall.**

a) Adroddwyd fod yna rhywun wedi dwyn y Bwrdd Gwybodaeth ar ben Bwlch y Groes. Dywedodd Cyng Catrin Jones ei bod wedi trafod efo'r Parc Cenedlaethol. Nodwyd fod hwn yn asset cyhoeddus, gwerth £500, a bod angen cyfeirio hyn I'r heddlu. Hefyd gweld a oedd modd gwneud cais yswiriant.

b) Roedd twll yn y pafin ochr ffordd ger y Buckley Arms (safle hen bocs ffon) a oedd yn beryglys i unigolion anabl.

c) Roedd gwair y darn bach tir ger y pistyll ym Minllyn angen ei dorri.

d) Roedd adroddiad fod y llwybr cyhoeddus o'r A470 lawr i Dinas heibio yr Hen Efail angen ei dorri (ond deallwyd fod hyn bellach wedi ei wneud)

e) Roedd angen clirio tyfiant ar y ffordd tu cefn I Pentre Bach, Dinas, ac hefyd y ffordd o dan Coed Cefn Coch.

f) Roedd y gridiau gwartheg o dan Cefn Gwyn yn Aberangell yn cadw swm wrth i gerbydau fynd trostynt, ac roedd angen edrych ar hyn unwaith eto.

g) Roedd angen ail osod yr arwydd 'Dim Sbwriel' yn y gulfan ar yr A470 rhwng Minllyn a Dinas.

h) Roedd cwynion a phryder fod Japanese Knotweed a Himalayan Balsom yn broblem gynyddol yr yr ardal.

**DYDDIAD CYFARFOD NESAF; NEUADD DINAS MAWDDWY NOS FERCHER 9fed Hydref 2024 , 7.30 y.h.**